



Urdd

- Teitl y Swydd:** Rheolwr Nawdd a Datblygu (Cyfnod Mamolaeth)
- Math o contract:** Cytundeb penodol ar gyfer cyfnod mamolaeth (hyd at 12 mis)
- Graddfa:** Graddfa 9: £31,628 (Pwynt 1) - £36,666 (Pwynt 6)
- Lleoliad:** Caerdydd, Glan-Ilyn neu Llangrannog

Am fwy o fanylion cysylltwch â Mali Thomas (Cyfarwyddwr Cyfathrebu) ar 029 20635695 / 07976 330360 neu mali@urdd.org

Anfonwch Ffurflen Gais yr Urdd ar e-bost at swyddi@urdd.org

Dyddiad Cau 9:00yb ar 8 Rhagfyr 2017
Dyddiad Cyfweld 14 Rhagfyr 2017 (lleoliad i'w gadarnhau)

DISGRIFIAD SWYDD

Teitl y swydd:	Rheolwr Nawdd a Datblygu	Lleoliad:	Glan-llyn, Llangrannog neu Gaerdydd
Adran:	Cyfathrebu	Rheolaeth Llinell:	Dim
Yn adrodd i:	Cyfarwyddwr Cyfathrebu	Graddfa:	Graddfa 9: £31,628 (Pwynt 1) - £36,666 (Pwynt 6)

Prif bwrpas y swydd:

Rydym yn chwilio am Rheolwr Nawdd a Datblygu a fydd yn gyfrifol am ddenu nawdd o ffynonellau masnachol a chyhoeddus tuag at Eisteddfod yr Urdd a gweithgareddau eraill y mudiad.

Bydd y Rheolwr yn llwyr gyfrifol am arwain ymchwil, cyfarfodydd a phartneriaethau i ganfod noddwyr newydd a pharhau gyda phartneriaethau nawdd ein noddwyr presennol.

Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:

1. Datblygu a gweithredu strategaeth codi arian oddi wrth noddwyr masnachol tuag at waith yr Urdd. Yn ymarferol bydd hyn yn golygu codi nawdd masnachol tuag at Eisteddfod yr Urdd yn ogystal ag adrannau eraill
2. Arwain a gweinyddu partneriaethau a sefydlir gyda noddwyr masnachol gan sicrhau'r gwasanaeth gorau posib i'r noddwr trwy gydol y daith
3. Gosodir targed ar adran yr Eisteddfod i ddenu nawdd masnachol o £200,000 ynghyd â £100,000 ar gyfer adrannau arall
4. Arwain ar greu cysylltiadau a phartneriaethau gyda noddwyr presennol a noddwyr potensial newydd i'r Urdd
5. Hyrwyddo gwaith yr Urdd a chreu cysylltiadau o fewn y gymuned fusnes i godi ymwybyddiaeth gyhoeddus o'n gwaith
6. Paratoi adroddiadau a chyflwyniadau i ddarpar noddwyr ac arwain ar gyfarfodydd gyda noddwyr
7. Creu cytundebau a sicrhau trefniadau addas i gydnabod nawdd y noddwyr
8. Cyngori ac arwain ar ysgrifennu ceisiadau ariannol i adrannau eraill yr Urdd
9. Cydweithio gyda gwirfoddolwyr lleol adran yr Eisteddfod i ganfod noddwyr newydd lleol pan fydd yr Eisteddfod yn ymweld ag ardal
10. Cyfrifol am holl drefniadau partneriaethau nawdd gan gynnwys eu holl fuddion
11. Cyfrifol am gynlluniau rhoi misol a chynllun ffrindiau'r Urdd
12. Cynnal cofrestr ganolog o holl noddwyr, ceisiadau grant ac ymddiriedolaethau oddi fewn i'r Urdd
13. Rhannu gwybodaeth gydag uwch dîm rheoli'r Urdd ar gynlluniau
14. Ymgymryd â thasgau priodol eraill sydd yn cyfrannu at ddatblygu'r mudiad a chynrychioli'r mudiad mewn digwyddiadau allanol

Manyldeb y person a'r meini prawf: Cymwysterau, sgiliau a phrofiad

Hanfodol

- i. Cymhwyster Gradd neu uwch
- ii. Sgiliau cyfathrebu rhagorol yn y Gymraeg a'r Saesneg ar lafar ac yn ysgrifenedig

- iii. Sgiliau cynllunio cadarn a'r profiad o allu blaengynllunio gwaith er mwyn cadw i amserlen dynn
- iv. Y gallu a'r profiad o wneud cyflwyniadau yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg
- v. Isafswm o leiaf dwy flynedd mewn rôl gyffelyb yn gweithio gyda noddwyr neu ym maes datblygu ariannol
- vi. Sgiliau cyfrifiadurol cryf
- vii. Gwybodaeth gyffredinol dda ar fusnesau yng Nghymru
- viii. Profiad o ddelio gydag Uwch Reolwyr sefydliadau
- ix. Profiad o ddelio gyda chwmnïau masnachol mewn rôl rheolwr partneriaethau
- x. Profiad o weithio ar eich liwt eich hun, gan flaenoriaethu gwaith yn ôl y galw, law yn llaw â bod yn aelod o dîm
- xi. Profiad o farchnata pecynnau nawdd
- xii. Trwydded yrru llawn a defnydd o gar

Dymunol

- i. Profiad fel rheolwr nawdd yn negydu partneriaethau nawdd masnachol

Nodiadau i ymgeiswyr:

- *I ymgeisio, mae'n rhaid llenwi'r ffurflen gais yn llawn, gan roi enghreifftiau i gefnogi eich atebion. Mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol i gael eich cynnwys ar y rhestr fer.*
- *Ar ôl y dyddiad cau, ni fydd yr hysbyseb swydd hon ar gael ar ein gwefan, felly cofiwch gadw copi ar gyfer eich cofnodion.*

Newidiadau i'r Disgrifiad Swydd:

Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

Hyblygrwydd:

Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deiliad dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

Adolygiad:

Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Tachwedd 2017 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

CRYNODEB O'R TELERAU AC AMODAU (ceir manylion llawn yn y Llawlyfr Staff)

Teitl y swydd:	Rheolwr Nawdd a Datblygu
Yn atebol i:	Cyfarwyddwr Cyfathrebu
Cyflog:	Ar raddfa 9 Strwythur Cyflog yr Urdd £31,628 (Pwynt 1) - £36,666 (Pwynt 6). Penodir ar Bwynt 1, oni bai fod profiad/cymhwyster arbennig yn denu un pwynt ychwanegol.
Cytundeb:	Cyfnod Mamolaeth
Oriau gwaith:	Wythnos waith sylfaenol yw 35 awr yr wythnos. Gweithredir cynllun oriau hyblyg.
Lleoliad:	Glan-Ilyn, Llangrannog neu Gaerdydd (byddem yn hapus i ystyried cais i weithio o un o swyddfeydd eraill yr Urdd yn dilyn cyfnod cychwynnol yn un o'r swyddfeydd uchod)
Gwyliau blynyddol:	Caniateir 25 niwrnod o wyliau blynyddol ac wyth niwrnod o wyliau cyhoeddus - y cyfnodau i'w pennu mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr. Bydd y gwyliau'n cynyddu i 28 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth ac yna i 33 diwrnod ar ôl 10 mlynedd o wasanaeth.
Cyfnod prawf:	Bydd cyfnod prawf o 6 mis
Pensiwn:	Bydd cyfle i ymuno â phensiwn mewnol yr Urdd ar unwaith, neu mae'n bosibl byddwch yn cael eich cofrestru i gynllun 'Ymgofrestru Awtomatig'.
Gwiriad GDG:	Nid yw'n berthnasol i'r swydd.
Archwiliad meddygol:	Cedwir yr hawl i ofyn i'r sawl a benodir i gael archwiliad meddygol cyn cynnig y swydd yn ffurfiol.